

PROSIECT CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Ynglŷn â'r prosiect

Mae'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu'n rhoi cyfle i'r disgyblion ymchwilio i fater hawliau dynol y maent yn teimlo'n gryf amdano a chynnal cam gweithredu ymgyrchu er mwyn achosi newid. Mae wedi rhannu'n bum sesiwn a bydd angen o leiaf chwe gwrs un awr i'w gwblhau. Cyfeiriwch at Addysgu Materion Dadleuol a Chanllawiau ar Ymgyrchu (yn y llyfryn) cyn i chi ddechrau'r sesiynau hyn.

Sesiwn	Amser	Trosolwg
1	Awr	Cyflwyno'r prosiect a dewis mater (lleol neu fyd-eang)
2	Awr	Penderfynu ar amcan a cham gweithredu
3	Awr	Deall sgiliau ymchwil
4	O leiaf 2 awr	Gwaith annibynnol: ymchwil, paratoi a chymryd cam gweithredu
5	1-2 awr	Gwerthuso

Cyfleoedd Cwricwlwm

Gall athrawon addasu'r adnodd hwn ar gyfer nifer o gyfleoedd cwricwlwm gan gynnwys:

Cymru – themâu Dinasyddiaeth Weithgar a Dinasyddiaeth Fyd-eang CA4.

Lloegr – arholiad Dinasyddiaeth CA4 neu brosiectau dinasyddiaeth weithgar heb arholiad.

Yn addas i'w ddefnyddio fel rhan o'r asesiad TGAU cwrs llawn wedi'i reoli, er enghraifft,

AQA – Cymryd Camau Gweithredu Gwybodus a Chyfrifol ac Edexcel – Ymgyrch Ddinasyddiaeth.

Gogledd Iwerddon – prosiectau cymryd camau gweithredu gydag arholiad neu heb arholiad yn CA4: LLW Dinasyddiaeth Leol a Byd-eang; Gwaith Prosiect

Yr Alban – Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth: Dinasyddiaeth.

Hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer: Grwpiau ieuencid Amnest, grwpiau allgyrsiol eraill wrth gynllunio camau gweithredu ymgyrchu, ac Ôl-16.

Cyfleoedd asesu

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried sut olwg sydd ar lwyddiant ac adeiladu meini prawf llwyddiant ar gyfer hunanasesiad (gweler Sesiwn 4).

Gofynnwch i'r disgyblion greu cyflwyniad PowerPoint i'w rannu gyda'r dosbarth ac i'w rannu gyda disgyblion eraill ar gyfer asesu cymheiriaid (gweler Sesiwn 5).

Defnyddiwch gynlluniau marcio o fyrddau arholi/disgrifwyr lefel o gyrff cwricwlwm i osod meini prawf asesu ar gyfer gwerthusiadau ysgrifenedig/cyflwyniadau.

Adnoddau sydd eu hangen

Cyfrifiadur/gliniadur gyda thaflunydd ar gyfer sioeau sleidiau PowerPoint

Sioeau sleidiau PowerPoint 1-5 ar gyfer y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu

Cynlluniau sesiwn 1 i 5

Ffilm: *Over to you* (ar gyfer Sesiwn 1)

Mynediad TG (ar gyfer rhai gweithgareddau gweler cynlluniau sesiwn unigol)

Mwy o ddeunyddiau defnyddiol ar www.amnesty.org.uk/povertyaction

Grwpiau ieuencid Amnest Rhyngwladol

Os yw eich disgyblion eisiau cymryd camau gweithredu gydag eraill yn rheolaidd, gallwch sefydlu eich grŵp ieuencid Amnest Rhyngwladol eich hunain. Gweler tudalen 19 yn y llyfryn, neu ffoniwch y tîm Addysg a Myfyrwyr ar 020 7033 1596.

Cydnabyddiaeth

Mae'r pecyn hyfforddi hwn yn tynnu ar arfer da a rennir gan athrawon a chan weithredwyr ac ymgyrchwyr Amnest. Hoffem sôn yn arbennig am Adran Ddinasyddiaeth Ysgol Deptford Green, Llundain, ac aelodau grwpiau ieuencid Amnest Rhyngwladol, y mae eu gwaith wedi llywio'r adnodd hwn. Hoffem ddiolch i Lee Faith a Pete Pattison o Gymdeithas Athrawon Dinasyddiaeth yn arbennig am eu cyfraniad i'r gwaith hwn.

Dywedwch wrthym am yr hyn yr ydych yn ei wneud

Os ydych chi neu eich disgyblion yn cynllunio ymgyrch Cymryd Camau Gweithredu wych, rhwng wybod i ni amdani. Byddem wrth ein boddau i rannu eich syniadau gydag eraill drwy ein gwefan Diogelu Dynolryw. Ewch i www.protectthehuman.com i gael mwy o wybodaeth (nodwch y telerau a'r amodau a'r canllawiau Amddiffyn Plant ar y safle hwn).